

Sunday 17th August 2025
+ The Ninth Sunday after Trinity

The collect of the day

Almighty God, you sent your Holy Spirit to be the life and light of your Church : open our hearts to the riches of your grace, that we may bring forth the fruit of the Spirit in love and joy and peace; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Jeremiah
(23.23-29)

Am I a God near by, says the Lord, and not a God far off? Who can hide in secret places so that I cannot see them? says the Lord. Do I not fill heaven and earth? says the Lord. I have heard what the prophets have said who prophesy lies in my name, saying, ‘I have dreamed, I have dreamed!’ How long? Will the hearts of the prophets ever turn back — those who prophesy lies, and who prophesy the deceit of their own heart? They plan to make my people forget my name by their dreams that they tell one another, just as their ancestors forgot my name for Baal.

Let the prophet who has a dream tell the dream, but let the one who has my word speak my word faithfully. What has straw in common with wheat? says the Lord. Is not my word like fire, says the Lord, and like a hammer that breaks a rock in pieces?

The Psalm

God has taken his stand in the / council of / heaven: in the midst of the / gods / he gives / judgement: ‘How long will you / judge un/justly: and show such / favour / to the / wicked? You were to judge the weak / and the / orphan: defend the / right • of the / humble and / needy;

Rescue the weak / and the / poor: deliver them / from the / hand of the / wicked. They have no knowledge or wisdom; they walk on / still in / darkness: all the foun/dations • of the / earth are / shaken.

Therefore I say that though / you are / gods: and all of you / children • of the / Most / High, Nevertheless, you shall / die like / mortals: and / fall like / one of their / princes.’ Arise, O God and / judge the / earth: for it is you that shall take all / nations / for your pos/session.

The reading from Hebrews
(11.29 – 12.2)

By faith the people passed through the Red Sea as if it were dry land, but when the Egyptians attempted to do so they were drowned. By faith the walls of Jericho fell after they had been encircled for seven days. By faith Rahab the prostitute did not perish with those who were disobedient, because she had received the spies in peace.

And what more should I say? For time would fail me to tell of Gideon, Barak, Samson, Jephthah, of David and Samuel and the prophets — who through faith conquered kingdoms, administered justice, obtained promises, shut the mouths of lions,

quenched raging fire, escaped the edge of the sword, won strength out of weakness, became mighty in war, put foreign armies to flight. Women received their dead by resurrection. Others were tortured, refusing to accept release, in order to obtain a better resurrection. Others suffered mocking and flogging, and even chains and imprisonment. They were stoned to death, they were sawn in two, they were killed by the sword; they went about in skins of sheep and goats, destitute, persecuted, tormented — of whom the world was not worthy. They wandered in deserts and mountains, and in caves and holes in the ground.

Yet all these, though they were commended for their faith, did not receive what was promised, since God had provided something better so that they would not, without us, be made perfect.

Therefore, since we are surrounded by so great a cloud of witnesses, let us also lay aside every weight and the sin that clings so closely, and let us run with perseverance the race that is set before us, looking to Jesus the pioneer and perfecter of our faith, who for the sake of the joy that was set before him endured the cross, disregarding its shame, and has taken his seat at the right hand of the throne of God.

The reading from the Gospel according to Saint Luke
(12.49-56)

Jesus said to his disciples: ‘I came to bring fire to the earth, and how I wish it were already kindled! I have a

baptism with which to be baptized, and what stress I am under until it is completed! Do you think that I have come to bring peace to the earth? No, I tell you, but rather division! From now on, five in one household will be divided, three against two and two against three; they will be divided: father against son and son against father, mother against daughter and daughter against mother, mother-in-law against her daughter-in-law and daughter-in-law against mother-in-law.’

He also said to the crowds, ‘When you see a cloud rising in the west, you immediately say, “It is going to rain”; and so it happens. And when you see the south wind blowing, you say, “There will be scorching heat”; and it happens. You hypocrites! You know how to interpret the appearance of earth and sky, but why do you not know how to interpret the present time?

The collect after communion

Holy Father, you gathered us here around the table of your Son to share this meal with the whole household of God : in that new world where you reveal the fullness of your peace, gather people of every race and language to share in the eternal banquet of Jesus Christ our Lord. AMEN

Dydd Sul 17^{eg} Awst 2025 + Y Nawfed Sul wedi'r Drindod

The collect of the day

Hollalluog Dduw, a anfonaist dy Ysbryd Glân i fod yn fywyd a goleuni i'th Eglwys, agor ein calonnau i gyfoeth dy ras, fel y dygwn ffrwyth yr Ysbryd mewn cariad a llawenydd a thangnefedd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Jeremeia (12.23-29)

"Onid Duw agos wyf fi," medd yr ARGLWYDD, "ac nid Duw pell? A all unrhyw un lechu yn y dirgel fel na welaf mohono?" medd yr ARGLWYDD. "Onid wyf yn llenwi'r nefoedd a'r ddaear?" medd yr ARGLWYDD. "Clywais yr hyn a ddywedodd y proffwydi sy'n proffwydo celwydd yn fy enw gan ddweud, 'Breuddwydiais, breuddwydiais!' Pa hyd yr erys ym mwriad y proffwydi broffwydo celwydd — proffwydi hudoliaeth eu calon eu hunain? Bwriadant beri i'm pobl anghofio fy enw trwy adrodd eu breuddwydion y naill wrth y llall, fel y bu i'w hynafiaid anghofio fy enw o achos Baal.

Y proffwyd sydd â breuddwyd ganddo, myneged ei freuddwyd, a'r hwn sydd â'm gair i ganddo, llefared fy ngair yn ffyddlon. Beth sy'n gyffredin rhwng gwellt a gwenith?" medd yr ARGLWYDD. "Onid yw fy ngair fel tân," medd yr ARGLWYDD, "ac fel gordd sy'n dryllio'r graig?"

Y Salm

Y mae Duw yn ei le yn y cyngor dwyfol; yng nghanol y duwiau y mae'n barnu. "Am ba hyd y barnwch yn anghyfiawn, ac y dangoswch ffafr at y drygionus? Rhowch ddeddfryd o blaid y gwan a'r amddifad, gwnewch gyfiawnder â'r truenus a'r diymgeledd.

Gwaredwch y gwan a'r anghenus, achubwch hwy o law'r drygionus. "Nid ydynt yn gwybod nac yn deall, ond y maent yn cerdded mewn tywyllwch, a holl sylfeini'r ddaear yn ysgwyd.

Fe ddywedais i, 'Duwiau ydych, a meibion i'r Goruchaf bob un ohonoch.' Eto, byddwch farw fel meidrolion, a syrthio fel unrhyw dywysog." Cyfod, O Dduw, i farnu'r ddaear, oherwydd eiddot ti yw'r holl ghenhedloedd.

Darlleniad o Hebreaid (11.29 – 12.2)

Trwy ffydd yr aethant drwy'r Môr Coch fel pe ar dir sych. Pan geisiodd yr Eifftiaid wneud hynny, fe'u boddwyd. Trwy ffydd y syrthiodd muriau Jericho ar ôl eu hamgylchu am saith diwrnod. Trwy ffydd, ni chafodd Rahab, y butain, ei difetha gyda'r rhai oedd wedi gwrthod credu, oherwydd iddi groesawu'r ysbwyr yn heddychlon.

A beth a ddywedaf ymhellach? Fe ballai amser imi adrodd yn fanwl hanes Gideon, Barac, Samson, Jefftha, Dafydd a Samuel a'r proffwydi, y rhai drwy ffydd a oresgynnodd deyrmasoedd, a weithredodd gyfiawnder, a afaelodd yn yr addewidion, a gaeodd safnau llewod, a ddiffoddodd angerdd tân, a ddihangodd rhag min y cleddyf, a nerthwyd o wendid, a ddaeth yn gadarn mewn rhyfel a gyrru byddinoedd yr estron ar ffo. Derbyniodd gwragedd eu meirwon drwy atgyfodiad. Cafodd eraill

eu harteithio, gan wrthod ymwared er mwyn cael atgyfodiad gwell. Cafodd eraill brofi gwatwar a fflangell, ie, cadwynau hefyd, a charchar. Fe'u llabyddiwyd, fe'u torrwyd â llif, fe'u rhoddwyd i farwolaeth â min y cledd; crwydrasant yma ac acw mewn crwyn defaid, mewn crwyn geifr, yn anghenus, dan orthrwm a chamdriniaeth, rhai nad oedd y byd yn deilwng ohonynt, yn crwydro mewn tiroedd diffaith a mynyddoedd, ac yn cuddio mewn ogofeydd a thyllau yn y ddaear.

A'r rhai hyn oll, er iddynt dderbyn enw da trwy eu ffydd, ni chawsant feddiannu'r hyn a addawyd, am fod Duw wedi rhagweld rhywbeth gwell ar ein cyfer ni, fel nad ydynt hwy i gael eu perffeithio hebom ni.

Am hynny, gan fod cymaint torf o dystion o'n cwmpas, gadewch i ninnau fwrw ymaith bob rhwystr, a'r pechod sy'n ein maglu mor rhwydd, a rhedeg yr yrfa sydd o'n blaen heb ddiffygio, gan gadw ein golwg ar Iesu, awdur a pherffeithydd ffydd. Er mwyn y llawenydd oedd o'i flaen, fe oddefodd ef y groes heb ddiffygio, gan ddiystyru gwarth, ac y mae wedi eistedd ar ddeheulaw gorseddfaine Duw.

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Luc (12.49-56)


Dywedodd yr Iesu: "Yr wyf fi wedi dod i fwrw tân ar y ddaear, ac O na fyddai eisoes wedi ei gynnu! Y mae bedydd y mae'n rhaid fy medyddio ag ef, a chymaint yw fy nghyfyngder hyd nes y cyflawnir ef! A ydych chi'n tybio mai i roi heddwch i'r ddaear yr wyf fi wedi dod? Nage, meddaf wrthych, ond ymraniad. Oherwydd o hyn allan bydd un teulu o bump wedi ymrannu, tri yn

erbyn dau a dau yn erbyn tri: 'Ymranna'r tad yn erbyn y mab a'r mab yn erbyn y tad, y fam yn erbyn ei merch a'r ferch yn erbyn ei mam, y fam-yng-nghyfraith yn erbyn y ferch-yng-nghyfraith a'r ferch-yng-nghyfraith yn erbyn ei mam-yng-nghyfraith.'"

Dywedodd wrth y tyrfaoedd hefyd, "Pan welwch gwmwl yn codi yn y gorllewin, yr ydych yn dweud ar unwaith, 'Daw yn law', ac felly y bydd; a phan welwch wynt y de yn chwythu, yr ydych yn dweud, 'Daw yn wres', a hynny fydd. Chwi ragrithwyr, medrwrch ddehongli'r olwg ar y ddaear a'r ffurfafen, ond sut na fedrwrch ddehongli'r amser hwn?"

The collect of the day

Dad sanctaidd, a'n galwodd ni yma ynghyd o amgylch bwrdd dy Fab i gyfranogi o'r pryd hwn gyda holl deulu Duw: yn y byd newydd hwnnw lle y datguddi lawnder dy dangnefedd, cynnull bobl o bob hil ac iaith i gyfranogi o wledd dragwyddol Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN



Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmu trwy ganiatâd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004 Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.